NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

health&safety at work
BWLETIN

Asbestos mewn Rhwyllau Gwifrog

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cyhoeddi rhybudd bod rhwyllau gwifrog metel sy'n cynnwys asbestos wedi cyrraedd ysgolion yn y Deyrnas Unedig drwy ddau gyflenwr. Mae'r rhain yn eitemau a ddefnyddir gyda llosgyddion Bunsen mewn arbrofion gwyddonol.

Ar hyn o bryd, nid yw HSE wedi datgelu enwau'r cyflenwyr dan sylw eto.

Mae'r Consortiwm Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gwyddonol (CLEAPSS) ac HSE wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ar y ffordd y dylai ysgolion ymdrin â'r broblem hon. Mae'r cyfarwyddyd ar gael i bob ysgol, p'un a ydynt yn aelodau ai peidio: http://science.cleapss.org.uk/Resource/GL286-FAQs-regarding-asbestos-in-gauzes.pdf ac http://science.cleapss.org.uk/Resource/HSE-ADVICE-TO-USERS-OF-BUNSEN-BURNER-WIRE-GAUZES-THAT-MAY-CONTAIN-ASBESTOS.pdf

Er nad yw CLEAPSS yn gweithredu yn yr Alban, mae'r Scottish Schools Education Research Centre (SSERC) wedi cyhoeddi cyfarwyddyd sylfaenol yn unig. Felly, mae NASUWT yn argymell yn gryf y dylai ysgolion yn yr Alban ddilyn cyngor CLEAPSS yn y sefyllfa hon. Yn yr un modd, nid yw Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon (HSENI) wedi cyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd, felly dylai ysgolion yng Ngogledd Iwerddon ddilyn cyngor HSE. Dylai ysgolion ar Ynys Jersey, Ynys y Garn, Ynys Manaw ac yn Gibraltar ddilyn cyngor CLEAPSS hefyd.

Mae NASUWT yn argymell y dylai cynrychiolwyr yn y gweithle / cynrychiolwyr iechyd a diogelwch gymryd y camau gweithredu dilynol:

- Sicrhau bod y prifathro/brifathrawes neu'r pennaeth a Phennaeth/Penaethiaid yr Adran(nau) Gwyddorau'n ymwybodol o'r cyfarwyddyd a roddwyd gan HSE a CLEAPSS.
- Dylid ystyried unrhyw rwyllau gwifrog a brynwyd ar ôl 1976 yn amheus heblaw bod y cyflenwr yn gallu darparu'r dystysgrif gan **gorff profi yn y DU sydd wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS)** sy'n ardystio bod y rhwyllau gwifrog yn rhydd o asbestos.
- Peidiwch â defnyddio rhwyllau gwifrog amheus.
- Rhaid peidio â gofyn i athrawon wneud y gwaith o dynnu rhwyllau gwifrog amheus, a dylent ond wneud hynny os ydynt yn gymwys. Yn unol â chyngor CLEAPSS, os nad oes unrhyw unigolyn/unigolion cymwys ar y safle, yna dylid defnyddio contractwr arbenigol sy'n gwaredu asbestos.
- Os oes unigolyn/unigolion cymwys ar gael, dylent waredu'r rhwyllau gwifrog o fewn y cynhwysydd y maent wedi'u storio ynddo, lle bo modd, fel nad ydynt yn trin y rhwyllau gwifrog unigol ymhellach. Dylid trin y cynhwysydd a'r rhwyllau gwifrog fel gwastraff sy'n cynnwys asbestos. Os nad yw hynny'n bosibl, dylid gwlychu'r rhwyllau gwifrog yn ofalus gan ddefnyddio potel chwistrellu a ddaliwch yn y llaw sy'n cynnwys dŵr ac ychydig bach o lanedydd (e.e. hylif golchi llestri) a'i drin yn ofalus i osgoi unrhyw niwed pellach. Dylid glanhau unrhyw ardaloedd lle cawsent eu storio, ac unrhyw offer y cawsent eu storio â nhw, gan ddilyn canllawiau HSE.

Parhad drosodd

- Mae'n rhaid gwaredu'r rhwyllau gwifrog fel gwastraff peryglus, ynghyd ag unrhyw ddefnyddiau a ddefnyddiwyd i lanhau mannau/offer a allai fod wedi'u halogi.

Wrth brynu rhwyllau gwifrog newydd, dylai ysgolion geisio cadarnhad gan eu cyflenwyr bod y gadwyn gyflenwi'n ddiogel ac nad yw'r rhwyllau gwifrog newydd yn cynnwys unrhyw lefel o asbestos. Yr unig ffordd bendant o sicrhau hyn yw bod eitemau sy'n deillio o'r tu allan i'r UE yn cael eu dadansoddi gan labordy sydd wedi'i achredu i ganfod asbestos gan UKAS. Dylai ysgolion ofyn i'r cyflenwr am gopi o dystysgrif prawf ddilys UKAS ar gyfer y rhwyll wifrog.

Dylid cysylltu ar unwaith â NASUWT os bydd ysgolion yn parhau i ddefnyddio rhwyllau gwifrog amheus, neu os na ddilynir cyngor HSE/CLEAPSS.

Os yw aelodau'n credu eu bod wedi dod i gysylltiad ag asbestos, dylent roi gwybod i'w meddyg teulu gynted ag y gallent, ac hefyd gofnodi'r cysylltiad ag asbestos ar gofrestr NASUWT, sy'n cael ei chadw gan Gyfreithwyr Thompsons. Gall aelodau gysylltu â Chyfreithwyr Thompsons ar 0808 100 2221.

"siaradwch â ni"

029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

Aelodaeth AM DDIM

DEWCH I YMUNO Â NASUWT Undeb yr Athrawon CYMRU The Teachers' Union HEDDIW

aelodaeth am ddim am y flwyddyn gyntaf o'r dyddiad yr ymunwch â ni*

Ar-lein ar www.nasuwt.org.uk neu ar y ffôn ar 03330 145550

Ydych chi'n aelod yn barod?

Bydd pob aelod sy'n gwahodd athrawon eraill yn llwyddiannus i ymuno â nhw yn NASUWT yn derbyn **tocynnau rhodd Love2shop hael.**

Y cwbl sydd ei angen yw rhoi eich enw a'ch rhif aelodaeth iddynt i'w nodi pan fyddent yn ymuno.

*Bydd aelodau newydd sy'n ymuno â NASUWT yn cael y flwyddyn gyntaf am ddim pan ddewisant dalu eu tanysgrifiad drwy ddebyd uniongyrchol yn y dyfodol.

GWAHODDWCH FFRIND I YMUNO Â NI